Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU:**
**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD A CHYNALIADWYEDD**

**Y GRŴP GORCHWYL A GORFFEN AR Y POLISI AMAETHYDDOL CYFFREDIN**
**CYFLWYNIAD GAN GYNGOR CEFN GWLAD CYMRU**

## Crynodeb

Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn croesawu'r cyfle hwn i gyflwyno tystiolaeth i Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor. Dyma'r prif bwyntiau yr hoffem eu pwysleisio:

(i). Er gwaethaf dylanwad grymoedd y farchnad, technoleg newydd a newid cymdeithasol, mae'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yn dal yn ddylanwad o bwys mawr ar ymddygiad ffermwyr unigol a hefyd ar strwythur cyffredinol y diwydiant amaeth, hyfywedd cymunedau gwledig ac ansawdd amgylchedd Cymru.

(ii). Mae'r ddadl ynglŷn â diwygio'r PAC yn cael ei chynnal o fewn trafodaeth ehangach o lawer ynghylch graddfa'r PAC, maint cyllideb yr UE ac anghenion yr Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol, gan gynnwys gofynion y Map Effeithlonrwydd Adnoddau[1]. Wrth i'r UE gynyddu o ran ei faint ac wrth i flociau negodi newydd ymddangos, mae'n fwy tebygol y caiff faint o adnoddau a fydd ar gael ar gyfer y PAC yn ystod 2014-2020, yn hytrach na chael ei neilltuo ar sail amcanion y cytunir arnynt, ei seilio ar ganlyniadau negodi munud olaf ynglŷn â maint cyllideb yr UE ac ynglŷn â'i bwrpas. Rhaid hefyd ystyried sefyllfa economaidd bresennol a dylanwad cynyddol Senedd Ewrop.

(iii). Gweledigaeth y Cyngor Cefn Gwlad ar gyfer dyfodol y PAC yn y tymor hir yw newid y pwyslais sylfaenol, fel bod y polisi'n cael ei drawsnewid yn bolisi sy'n canolbwyntio ar ddarparu ystod eang o fuddion cyhoeddus amgylcheddol ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd. Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn ffafrio "PAC gwyrdd" gan ddefnyddio Colofn 2 gryfach o'i mewn i dargedu darparu buddion amgylcheddol yn fwy cywir tra bo Colofn 1 yn sylfaen i gynnal gwasanaethau ecosystemau. Mae hyn yn adlewyrchu'r dull a ddisgrifiwyd yn Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol sydd wrthi'n cael ei ddatblygu ar gyfer Cymru. Yn y cyd-destun hwn, bydd y PAC diwygiedig yn elfen ganolog o ddarparu dull newydd o reoli tir a dŵr fel y'i cynigir yn y Fframwaith.

(iv). Mae cyllideb ddrafft yr UE eisoes wedi awgrymu y gwelir gostyngiad mewn termau real o c.9% yng nghyllideb yr UE dros y cyfnod 2014-2020. Ar hyn o bryd, effeithir i'r un graddau ar y ddwy Golofn ond fe allai'r sefyllfa newid wrth negodi'r gyllideb derfynol, yn enwedig yng

[1] "*Roadmap to a Resource Efficient Europe*". Cyfathrebiad CE COM(2011) 571 terfynol. Medi 2011. Ar gael yn: http://ec.europa.eu/environment/resource_efficiency/

ngoleuni'r argyfwng ariannol presennol a dyletswyddau Aelod-Wladwriaethau i gydariannu C2. A chofio bod cwmpas C2 eisoes wedi'i ymestyn yn sylweddol o fewn y Rheoliad Datblygu Gwledig drafft, mae gostyngiad arall yng nghyllideb C2 yn debygol o olygu y bydd angen i lawer o Aelod-Wladwriaethau ddibynnu ar Golofn 1 werdd fel rhan o gyflawni agenda gwasanaethau'r ecosystemau.

(v). Gyda golwg ar y cynigion manwl a gynigiwyd gan y Comisiwn, dyma sylwadau'r Cyngor Cefn Gwlad:

- O ran taliadau uniongyrchol, wrth newid o daliadau hanesyddol i daliadau ardal, bydd hynny'n golygu dosbarthu incwm. Mae'n anodd rhagweld beth fydd effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol hon yn anodd eu rhagweld. Er mwyn osgoi effeithiau niweidiol, bydd yn bwysig sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n gallu sefydlu cyfres o "isranbarthau" a bod modd sefydlu taliad sylfaenol unffurf yr hectar o'u mewn yn unol â natur y tir a'r mathau o ffermio sydd ar waith.

- Mae'r Cynllun Ffermwyr Bychain yn un gorfodol yn y bôn, oherwydd os bydd ffermwyr yn dewis ymgeisio, bydd angen i'r Aelod-Wladwriaeth/Rhanbarth perthnasol dalu rhwng 500 a 1000 ewro y fferm y flwyddyn. Gallai'r costau gweinyddol fod yn sylweddol a byddai'n fwy priodol pe caniateid i Aelod-Wladwriaethau weithredu cynlluniau o'r fath ar sail ddewisol. Os bydd y cynllun yn parhau'n un gorfodol, yna dylai gofynion trawsgydymffurfio barhau i fod yn berthnasol i bawb sy'n cymryd rhan ynddo.

- Ar hyn o bryd, mae mesur cyfyngiadau naturiol (a elwid gynt yn Ardal Lai Ffafriol) yng Ngholofn 1 ac yng Ngholofn 2. Er mwyn i Lywodraeth Cymru gadw at ei hymrwymiad presennol i fynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth, rheoli dŵr a newid yn yr hinsawdd, bydd yn bwysig sicrhau bod y mesurau cyfyngiadau naturiol yn parhau'n rhai dewisol.

- A dibynnu ar ragor o negodi ar lefel yr UE, mae'n bosibl y gellid defnyddio Colofn 1 werddach i gymell ffermwyr i ymuno â chynlluniau amaeth-amgylchedd drwy sicrhau eu bod yn cael eu heithrio rhag y gofynion gwyrdd yn yr un modd ag yr eithrir ffermwyr organig. Ar y llaw arall, gellid defnyddio'r mesurau gwyrdd i "godi'r bar" ar gyfer y rheini sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd, gan sicrhau bod modd defnyddio cronfeydd y Cynllun Datblygu Gwledig i brynu lefel uwch o fudd i'r amgylchedd.

- Er bod y Cyngor Cefn Gwlad yn sylweddoli ei bod yn ddymunol sicrhau cyn lleied o newidiadau â phosibl i Glastir, mae'r hyn a gynigir gan yr UE, sef y gofyniad y dylai mesurau gwyrdd Colofn 1 fynd "y tu hwnt i drawsgydymffurfio" yn golygu ei bod yn debygol y bydd angen addasiadau eraill i elfen Cymru gyfan. Er enghraifft, byddai addasu neu ddileu opsiynau 15B a 15D (porfeydd parhaol y bwydir hyd at 100kg o nitrogen iddynt y flwyddyn) yn ei gwneud hi'n fwy tebygol y bydd y Comisiwn yn cytuno â'r cynnig y dylai pawb sy'n cymryd rhan yng nghynllun Glastir gael ei eithrio rhag gofynion gwyrddu C1.

- Er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n gallu gwireddu ei hymrwymiadau amgylcheddol a Fframwaith arfaethedig yr Amgylchedd Naturiol, mae'n dal yn angenrheidiol sicrhau gwell cyllideb Colofn 2 ar lefel yr UE yn ogystal â chynnydd yn nyraniad Colofn 2 ar gyfer y Deyrnas Unedig ac ar gyfer Cymru. Ar yr un pryd, bydd

angen i Lywodraeth Cymru gynnal ei hymrwymiadau presennol o ran ei hadnoddau hi ei hun, gan ddefnyddio i'r eithaf yr hyblygrwydd sy'n caniatáu iddi drosglwyddo cronfeydd o Golofn 1 i Golofn 2.

- Mae angen i bob Aelod-Wladwriaeth/Rhanbarth gynnal lefelau presennol eu hymrwymiadau o ran amaeth-amgylchedd a'r hinsawdd, yn ogystal â sicrhau bod pob Cynllun Datblygu Gwledig yn dyrannu o leiaf 25% o gyfraniad Cronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig er mwyn cyflawni mesurau rheoli tir, ac awgrymir hyn yn y rhagair i'r Rheoliad Datblygu Gwledig drafft. Byddai sicrhau bod y gofyniad hwn yn cael ei gynnwys ym mhrif destun y Rheoliad newydd hefyd yn help i sicrhau cae chwarae gwastad ar lefel Ewrop.

(vi). Er mwyn atgyfnerthu ei safbwynt negodi, bydd angen i Lywodraeth Cymru wneud digon o waith modelu ar effaith mesurau gwyrddu C1 yn ogystal ag ar ddosbarthiad y taliadau sylfaenol. Yn benodol, bydd angen cael gwybod yn bendant a yw cymryd rhan yn elfen Cymru gyfan Glastir yn ddigon i gyflawni gofyniad arfaethedig yr Ardal â Ffocws Ecolegol.

(vii) Mae'r Cyngor Cefn Gwlad wedi cynnig nifer o welliannau penodol i'r rheoliadau drafft, yn enwedig yng nghyswllt gwyrddu Colofn 1. Edrychwn ymlaen at drafod ein cynigion â'r Pwyllgor.

## 1. Rhagarweiniad

1.1. Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru'n hyrwyddo amgylchedd a thirweddau Cymru ynghyd â dyfroedd ei glannau sy'n gyforiog o gyfoeth naturiol a diwylliannol, a hynny'n sail ar gyfer gweithgarwch economaidd a chymdeithasol, ac yn fannau lle y gall pobl fanteisio ar gyfleoedd i hamddena a dysgu. Ein nod yw gwneud yr amgylchedd yn rhan werthfawr o fywyd pawb yng Nghymru.

1.2 Bydd oddeutu 80% o dir Cymru'n cael ei ffermio. Felly, mae gan y diwydiant amaeth swyddogaeth bwysig o ran helpu'r Cyngor Cefn Gwlad a Llywodraeth Cymru i wireddu'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ar gyfer bioamrywiaeth, y dirwedd a mynediad y cyhoedd i gefn gwlad.

1.3 Er bod amrywiaeth eang o sbardunau'n effeithio ar amaethyddiaeth, mae'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yn dal i gael dylanwad enfawr ar ymddygiad ffermwyr unigol yn ogystal ag ar siâp cyffredinol y diwydiant. Gweledigaeth y Cyngor Cefn Gwlad ar gyfer dyfodol y PAC yn y tymor hir yw newid pwyslais sylfaenol, gan drawsnewid y polisi a chanolbwyntio ar ddarparu ystod eang o fuddion cyhoeddus ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd. Mae'r buddion cyhoeddus hyn cynnwys rheoli aer a dŵr glân, priddoedd iach, bioamrywiaeth, tirweddau diwylliannol a mynediad cyhoeddus i gefn gwlad[2]. Elfen ganolog o'n gweledigaeth yw rôl ffermwyr yn rheoli amrywiaeth o wasanaethau ecosystemau, gan gynnwys dal a storio carbon, storio llif a chylchu maetholion. Mae gan bob un o'r rhain ran hollbwysig yn ategu cynhyrchaeth amaethyddol. Mae hyn yn adlewyrchu'r dull a ddisgrifiwyd yn Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol sydd wrthi'n cael ei ddatblygu ar gyfer Cymru.[3]

---

[2] Mae Comisiwn Ewrop wedi comisiynu adroddiad mawr yn ddiweddar ynglŷn â buddion cyhoeddus ac amaethyddiaeth. Mae hwn ar gael yn: http://ec.europa.eu/agriculture/analysis/external/public-goods/report_en.pdf

[3] Mae rhagor o wybodaeth yn: http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/consmanagement/nef/?lang=cy

## 2. Cefndir

2.1. Cyhoeddwyd Dogfen Gyfathrebu Comisiwn Ewrop am ddiwygio'r PAC ar ôl 2013 ar 18 Tachwedd 2010[4]. Roedd hwn yn gosod y cyd-destun ar gyfer y rownd negodi bresennol drwy dynnu sylw at bryderon ynglŷn â diogelu'r cyflenwad bwyd, adnoddau amgylcheddol a newid yn yr hinsawdd yn ogystal â phwysleisio amrywiaeth y sefyllfaoedd amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a rheoli tir sy'n bodoli yng ngwahanol rannau'r UE.

2.2. Cyhoeddwyd cynigion deddfwriaethol drafft y Comisiwn ar gyfer y PAC yn ffurfiol ar 12 Hydref 2011, er bod fersiynau answyddogol o'r Rheoliadau unigol wedi bod cylchredeg ers canol mis Awst. Y pecyn terfynol yw'r sail ar gyfer y negodi presennol. Mae'n cynnwys saith Rheoliad[5] drafft ar wahân, ac mae i dri o'r rheini oblygiadau ar gyfer amaethyddiaeth Cymru a'r amgylchedd:

- Cynnig i sefydlu rheolau ar gyfer cynlluniau talu uniongyrchol i ffermwyr (Rheoliad Taliadau Uniongyrchol);
- Cynnig ynglŷn ag ariannu, rheoli a monitro'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (y Rheoliad 'Llorweddol');
- Cynnig ynglŷn â chymorth ar gyfer datblygu gwledig gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.

2.3 Mae'r pedwar Rheoliad arall yn ymwneud â materion technegol sydd a wnelo â threfniadaeth marchnadoedd amaethyddol a mesur pontio sydd i fod i sicrhau bod modd parhau i fodiwleiddio taliadau uniongyrchol yn ystod 2013.

2.4 Gyda'r pecyn rheoleiddio, ceir Asesiad o Effaith[6] yr amrywiol senarios diwygio a ddisgrifiwyd yn Nogfen Gyfathrebu wreiddiol y Comisiwn ynglŷn â diwygio'r PAC yn ôl ym mis Tachwedd 2010. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru dystiolaeth o'r blaen ym mis Ionawr 2011 fel rhan o broses Asesu Effaith 2010[7]. Mae'r Asesiad Effaith terfynol yn defnyddio canlyniadau'r broses ymgynghori drwy'r UE cyn archwilio gwaith mwy diweddar gan y Comisiwn ar ddatblygu'r "senario integreiddio" a ffefrir. O dan hwnnw, bydd taliadau uniongyrchol yn chwarae rôl gynyddol o ran sicrhau buddion cyhoeddus amgylcheddol (yr hyn a elwir yn 'wyrddu' Colofn 1) ochr yn ochr â chymorth incwm sylfaenol a chynyddu nifer mesurau C2.

2.5 Nid oes modd dianc rhag y cysylltiad rhwng gwneud cynnydd o ran diwygio'r PAC â'r ddadl barhaus ynglŷn â maint a phwrpas cyllideb yr UE. Pan gyhoeddwyd y Fframwaith Ariannol Amlflwydd ddiwedd mis Mehefin 2011, roedd hynny'n arwydd o fwriad y Comisiwn o fwrw ymlaen â senario integreiddio'r PAC sy'n cynnal y cydbwysedd ariannol presennol rhwng Colofn 1 (taliadau uniongyrchol) a Cholofn 2 (datblygu gwledig). Mae'r Fframwaith

---

[4] *"The CAP towards 2020: meeting the food, natural resources and territorial challenges of the future". Ar gael yn:* http://ec.europa.eu/agriculture/cap-post-2013/communication/index_en.htm

[5] *Ar gael yn::*http://ec.europa.eu/agriculture/cap-post-2013/legal-proposals/index_en.htm

[6] Ar gael yn: http://ec.europa.eu/agriculture/cap-post-2013/legal-proposals/index_en.htm

[7] Mae copi o gyflwyniad y Cyngor Cefn Gwlad ar gael dim ond ichi ofyn.

Ariannol Amlflwydd hefyd yn datgelu bod cyllideb y PAC yn debygol o grebachu oddeutu 9.2% mewn termau real dros y cyfnod 2014-2020 ac o 39.6% i 36.1% fel canran o gyllideb yr UE drwyddi draw[8].

2.6 A chadw'r hinsawdd ariannol bresennol mewn cof, nid yw'n sicr o bell ffordd y bydd Aelod-Wladwriaethau meddwl bod y gostyngiadau a gynigir yng ngwariant y PAC yn ddigon. Serch hynny, mae gan Senedd Ewrop bwerau cydbenderfynu bellach ochr yn ochr â'r Comisiwn a'r Cyngor o dan Gytuniad Lisbon. At hynny, mae Senedd Ewrop wedi penderfynu y dylai'r "symiau a ddyrennir i'r PAC ym mlwyddyn gyllideb 2013 [blwyddyn olaf y persbectif ariannol presennol] gael eu cynnal o leiaf yn ystod y cyfnod rhaglennu ariannol nesaf"[9].

## 3. Elfennau Allweddol cynigion presennol y Comisiwn i ddiwygio'r PAC

Rheoliad Taliadau Uniongyrchol

3.1. Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y "Cynllun Taliadau Sylfaenol" (sy'n cyfateb i Gynllun y Taliad Sengl ac yn werth hyd at fwyafswm o 68% o'r arian sydd ar gael o fewn y nenfwd cenedlaethol/rhanbarthol ar gyfer Colofn 1) rhaid i ffermwyr ddilyn amrywiaeth o arferion amaethyddol sydd er budd yr amgylchedd yn ogystal â pharchu gofynion trawsgydymffurfio:

- Os yw arwynebedd y tir âr yn fwy na 3ha, rhaid tyfu o leiaf 3 chnwd gwahanol, gyda lleiafswm o 5% a mwyafswm o 70% o'r ardal gymwys yn achos pob cnwd (Erthygl 30);

- Rhaid cynnal porfeydd parhaol (a ddiffinnir yn weirdir ac yn borthiant llysieuol) er y caniateir i ffermwyr leihau arwynebedd y porfeydd parhaol hyd at 5% yn 2014 dros gyfnod amhenodol (Erthygl 31);

- Rhaid neilltuo o leiaf 7% o'r hectarau cymwys (ac eithrio tir sydd o dan weirdir parhaol) i "Ardaloedd â Ffocws Ecolegol". Gall y rhain gynnwys gwyndwn, nodweddion tirweddol, lleiniau clustog a thir amaeth lle mae coed wedi'u plannu (Erthygl 32).

3.2. Mae gofyn i Aelod-Wladwriaethau/Rhanbarthau ddefnyddio 30% o'u cyllideb taliadau uniongyrchol i dalu am y gofynion gwyrddu (Erthygl 33.1). Serch hynny, os bydd ffermwyr unigol yn methu â chydymffurfio â'r mesurau gwyrddu, nid yw'n glir pa mor fawr fyddai'r gosb. Mae paragraff 26 y rhagair i'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol yn cyfeirio at roi cosbau ar waith o dan Erthygl 65 y Rheoliad Llorweddol, sy'n grymuso Aelod-Wladwriaethau i leihau'r cymorth neu i eithrio ffermwyr o'r cynlluniau perthnasol. Yn groes i hynny, mae Erthygl 29 o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol yn cyfeirio at y gofyniad ei bod yn "rhaid i ffermwyr sydd â'r hawl i'r .... cynllun taliadau sylfaenol......ar yr hectarau sy'n gymwys" gadw at y mesurau gwyrddu. Awgryma Erthygl 29, felly, na fydd gan ffermwyr sy'n methu â chadw at y mesurau gwyrddu yr hawl i daliadau sylfaenol.

---

[8] *"A Budget for Europe 2020 - Part I - Communication from the Commission to the European Parliament, the Council, the European Economic and Social Committee and the Committee of the Regions".*
*Ar gael yn::*http://ec.europa.eu/budget/biblio/documents/fin_fwk1420/fin_fwk1420_en.cfm#doc2

[9] Penderfyniad Senedd Ewrop ar 8 Mehefin ynglŷn â *"Investing in the future: a new Multiannual Financial Framework (MFF) for a competitive, sustainable and inclusive Europe (2010/2211(INI)",* P7_TA-PROV(2011)0206, Rapporteur: Salvador Garriga Polledo, para 82.

3.3. Rhaid i Aelod-Wladwriaethau/Rhanbarthau hefyd ddyrannu hyd at 2% o'r gyllideb taliadau uniongyrchol i gynorthwyo ffermwyr ifanc (Erthygl 37) ac mae gofyn iddynt sefydlu cynllun ffermwyr bychain a allai fod yn 10% arall o'r gyllideb (Erthygl 51.2). Ar yr un pryd, gall Aelod-Wladwriaethau/Rhanbarthau ddewis defnyddio hyd at 5% o'r gyllideb i gynorthwyo ffermwyr Ardaloedd Llai Ffafriol (Erthygl 35), a gellir neilltuo 5% arall i "fathau penodol o ffermio sy'n bwysig am resymau economaidd neu gymdeithasol" (Erthygl 39). Petai'r holl elfennau hyn yn cael eu defnyddio, byddai'r dyraniad ar gyfer taliadau sylfaenol yn gostwng i fymryn o dan 50% o gyfanswm y gyllideb sydd ar gael ar gyfer taliadau uniongyrchol yn yr Aelod-Wladwriaeth/Rhanbarth dan sylw.

3.4. Dyma rai o elfennau pwysig eraill y Rheoliad drafft:

- Bydd gofyn i bob Aelod-Wladwriaeth/Rhanbarth symud at system taliadau uniongyrchol sy'n seiliedig ar ardal dros gyfnod pontio pum mlynedd yn dechrau ar 1 Ionawr 2014 ac yn gorffen ar 1 Ionawr 2019 (Erthygl 22.5);

- Bydd Taliadau Sylfaenol sy'n fwy na 150,000 ewro yn cael eu gostwng yn ôl graddfa (20% ar gyfer symiau rhwng 150-200,000 Ewro; 40% ar gyfer symiau rhwng 200-250,000 Ewro a 70% ar gyfer symiau rhwng 250-300,000 Ewro) a rhoddir cap ar fwyafswm o 300,000 Ewro y ffermwr (Erthygl 11).

- Dim ond i "ffermwyr gweithredol" y rhoddir taliadau uniongyrchol. Yn ôl y diffiniad, ffermwyr yw'r rhain y mae eu taliadau uniongyrchol yn fwy na 5% o gyfanswm yr hyn y maent ei dderbyn drwy weithgareddau nad ydynt yn weithgareddau amaethyddol. Bydd ffermwyr sy'n derbyn llai na 5000EUR y flwyddyn ar ffurf taliadau uniongyrchol yn cael eu heithrio rhag y gofyniad ynglŷn â ffermwr gweithredol (Erthygl 9).

- Er mwyn cryfhau'r polisi datblygu gwledig (Colofn 2), bydd Aelod-Wladwriaethau'n gallu trosglwyddo hyd at 10% o'u dyraniad taliadau uniongyrchol (Colofn 1) i'w dyraniad datblygu gwledig (Colofn 2). Diddymir y gofynion presennol o ran modiwleiddio gorfodol (5%) a modiwleiddio gwirfoddol (hyd at 20% yn achos y Deyrnas Unedig).

- Bydd Aelod-Wladwriaethau lle mae lefel y cymorth uniongyrchol yn dal o dan 90% o gyfartaledd Ewrop (gan gynnwys y Deyrnas Unedig) yn gallu trosglwyddo hyd at 5% o'u dyraniadau datblygu gwledig i'w cyllideb taliadau uniongyrchol mewn proses a elwir fel arall yn "fodiwleiddio o chwith" (Erthygl 14).

Rheoliad Datblygu Gwledig

3.5. Er bod llawer o bethau yn y Rheoliad drafft yn bethau cyfarwydd o ran y mathau o offerynnau polisi sydd ar gael, mae sawl newid pwysig hefyd. Daw'r rhain ar ffurf offerynnau newydd (megis pecyn rheoli risg) yn ogystal â gofynion newydd o ran sut mae gofyn i Aelod-Wladwriaethau/Rhanbarthau lunio'r genhedlaeth newydd o Gynlluniau Datblygu Gwledig wrth nesáu at 2014. Yn unol â Strategaeth Ewrop 2020[10], rhaid cyflawni amcanion tymor hir presennol y Rheoliad Datblygu Gwledig (gwell gallu i gystadlu, rheoli adnoddau naturiol

[10] Ar gael yn: http://ec.europa.eu/europe2020/targets/eu-targets/index_en.htm

mewn ffordd gynaliadwy a datblygu tir mewn ffordd gytbwys) drwy fynd i'r afael â'r chwe blaenoriaeth a ganlyn sydd gan yr UE:

- Meithrin trosglwyddo gwybodaeth ym maes amaeth a choedwigaeth;
- Gwneud pob math o amaethyddiaeth yn fwy cystadleuol;
- Hyrwyddo trefniadaeth y gadwyn fwyd a rheoli risgiau mewn amaethyddiaeth;
- Gwarchod a chryfhau ecosystemau sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth a choedwigaeth;
- Hybu effeithlonrwydd o ran adnoddau a throi at economi sy'n rhad ar garbon;
- Gwireddu potensial a datblygu cyflogaeth mewn ardaloedd gwledig.

3.6 Rhaid i bob un o'r blaenoriaethau uchod gyfrannu hefyd at amcanion trawsbynciol arloesi, yr amgylchedd a lliniaru ac addasu yn sgil newid yn yr hinsawdd (Erthygl 5).

3.7. Yn ôl y Rheoliad Rheolau Cyffredin drafft a ryddhawyd fel rhan o gynigion y Comisiwn ynglŷn â pholisi Cydlyniant y Comisiwn ar 6 Hydref 2011[11], mae gofyn i Aelod-Wladwriaethau (yn hytrach na Rhanbarthau) baratoi "contract partneriaeth" ar gyfer y cyfnod 1 Ionawr 2014 hyd at 31 Rhagfyr 2020. Bwriedir i'r contractau hyn ymwneud â defnyddio holl ffynonellau ariannu'r UE mewn ffordd gyfannol (Cronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig, Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Cronfa Strwythurol Ewrop, y Gronfa Cydlyniant a Chronfa Pysgodfeydd Ewrop) yn yr Aelod-Wladwriaeth dan sylw.

3.8. Ar lefel y Rhanbarth (h.y. Cymru) bydd gofyn hefyd i bob Cynllun Datblygu Gwledig ddangos bod cyfuniadau perthnasol o fesurau (megis amaeth-amgylchedd, coedwigaeth, ardaloedd llai ffafriol, buddsoddi, trosglwyddo gwybodaeth, rheoli risg ac ati ac ati) yn cael eu defnyddio yn y fath fodd fel bod modd mynd i'r afael â phob un o chwe blaenoriaeth yr UE, gan osod targedau ar sail dadansoddiad Cryfderau Gwendidau Cyfleoedd a Bygythiadau o'r diriogaeth dan sylw (Erthygl 9). Diddymir y drefn bresennol lle'r oedd Aelod-Wladwriaethau/Rhanbarthau'n gorfod cydymffurfio â'r cyfyngiadau (uchafswm ac isafswm) ar faint o Gronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig y gellid ei neilltuo ar gyfer cystadleurwydd; rheoli adnoddau naturiol; datblygu cymdeithasol ac economaidd a LEADER (y dull a oedd yn seiliedig ar hyn a elwid y "Echelau").

3.9. Dyma rai o elfennau pwysig eraill y Rheoliad drafft:

- Mae'r mesur amaeth-amgylchedd yn dal yn fesur gorfodol (er bod Erthygl 9 bellach yn cyfeirio at "amaeth-amgylchedd-hinsawdd") ac un newid i'w groesawu ers fersiwn answyddogol blaenorol y Rheoliad Datblygu Gwledig yw bod paragraff 28 y rhagair bellach yn cyfeirio at gyfraniad o leiaf 25% o Gronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig i bob Cynllun Datblygu Gwledig yn cael ei ddyrannu i amaeth-amgylchedd-hinsawdd, i ffermio organig ac i fesurau mewn ardaloedd llai ffafriol.

[11] Ar gael yn: http://ec.europa.eu/regional_policy/what/future/proposals_2014_2020_en.cfm#5

- Pwyslais o'r newydd ar drosglwyddo gwybodaeth a chyngor (Erthyglau 15 ac 16) a defnyddio'r mesur hwn yn thema drawsbynciol yng nghyswllt mesurau eraill megis rhai amaeth-amgylchedd (Erthygl 29.4).

- Y gallu i dalu i ffermwyr a choedwigwyr i wneud iawn am eu costau a'r incwm a gollant yn sgil cydymffurfio â dynodiadau Natura 2000 a rhoi'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar waith (Erthygl 31).

- Diffiniad newydd o ardaloedd anfynyddig "sy'n wynebu cyfyngiadau naturiol a chyfyngiadau penodol eraill (a elwid gynt yn ardaloedd llai ffafriol) a hwnnw wedi'i seilio ar wyth o feini prawf bioffisegol o dan benawdau cyffredinol hinsawdd, pridd a thirwedd (Erthygl 33 ac Atodiad II). Gellir rhoi taliadau pontio i ffermwyr nad ydynt yn gymwys rhagor i gael taliadau o dan y diffiniad newydd, gan ddechrau ar 80% o'r taliad presennol yr ha yn 2014 ac yn gorffen yn 2017 ar 20% o'r taliad presennol (Erthygl 32).

- Mwy o bwyslais ar hybu cydweithredu ymhlith ffermwyr (Erthygl 36) gan gynnwys y gallu i gyfrannu at gostau trafodion grwpiau o ffermwyr sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd ar gyfradd o hyd at 30% o swm yr incwm a gollwyd a'u costau (Erthygl 29.6).

- Mesurau newydd sy'n ymwneud â rheoli risg, gan gynnwys iawndal am golledion yn sgil trychinebau naturiol yn ogystal â chyfraniadau ariannol i gronfeydd cydfuddiannol ar gyfer talu iawndal ac i helpu i greu "arf sefydlogi incwm" (Erthyglau 37-40).

- Dull newydd o ysgogi arloesi yng nghyswllt gwella cynhyrchaeth amaethyddol a chynaliadwyedd (Erthyglau 53 a 61-63). Partneriaeth Arloesi Ewropeaidd newydd fydd yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn a'i nod fydd codi pontydd rhwng gwaith sydd ar flaen y gad ym maes ymchwil, gwybodaeth a thechnoleg a ffermwyr, busnesau a gwasanaethau cynghori.

<u>Rheoliad Llorweddol</u>

3.10. Er bod a wnelo'r rheoliad yn bennaf â materion technegol sydd o ddiddordeb i'r Asiantaethau Talu, mae i nifer o bynciau oblygiadau amgylcheddol:

- Mae swyddogaeth y Gwasanaeth Cynghori Ffermwyr wedi'i hehangu'n sylweddol, yn hytrach na'i bod wedi'i chyfyngu i faterion trawsgydymffurfio fel yr oedd gynt. Bellach, rhaid i'r ystod o bynciau yr ymdrinnir â hwy gynnwys y gofynion rheoli statudol a chyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da; mesurau gwyrddu C1; camau sy'n gysylltiedig â lliniaru effaith newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo, bioamrywiaeth, gwarchod dŵr, clefydau anifeiliaid ac arloesi yn ogystal â datblygiad economaidd ffermydd bychain mewn ffordd gynaliadwy (Erthyglau 12-15 ac Atodiad I)

- Estynnir cwmpas trawsgydymffurfio i gynnwys y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (o fewn 12 mis o'r funud y mae'r Aelod-Wladwriaeth olaf wedi dweud wrth y Comisiwn ei bod wedi rhoi'r Gyfarwyddeb ar waith) a'r Gyfarwyddeb Plaladdwyr (dyddiad gweithredu'n unol â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr).

- Er mwyn sicrhau bod holl safonau a gofynion trawsgydymffurfio'n cael eu dehongli'n gyson, fe'u trefnir yn awr mewn un rhestr a'u grwpio yn ôl pynciau a materion (Erthyglau 93 a 94 yn ogystal ag Atodiad II). Ychwanegwyd dwy safon newydd sy'n ymwneud â chyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da er mwyn gwarchod y pridd a sicrhau cyn lleied o ollyngiadau nwyon tŷ gwydr ag y bo modd. Mae'r rhain yn gofyn cynnal deunydd organig y pridd a gwarchod gwlypdiroedd a phriddoedd sy'n gyforiog o garbon.

- Bydd y fframwaith monitro a gwerthuso cyffredin yn ymwneud â pherfformiad y drefn taliadau uniongyrchol (gan gynnwys trawsgydymffurfio) a rhoi mesurau'r farchnad ar waith yn ogystal ag â'r mesurau Datblygu Gwledig (Erthygl 110).

## 4. Beth allai cynigion Comisiwn Ewrop ei olygu i Gymru?

4.1. Er bod llawer o waith i'w wneud eto cyn sicrhau cytundeb, mae pensaernïaeth gyffredinol y PAC ar ôl 2013 yn eglurach yn raddol bach. Er bod gan nifer sylweddol o'r Aelod-Wladwriaethau, sefydliadau ffermwyr a Chyrff Anllywodraethol amheuon sylweddol ynglŷn â gwyrddu Colofn 1[12] (er bod eu rhesymau dros hynny'n amrywio'n fawr) mae cryn gefnogaeth o blaid mynd o'i chwmpas hi fel hyn o fewn y Comisiwn. Dywedodd Dacian Ciolos (Amaethyddiaeth), Connie Hedegard (Hinsawdd) a Janez Potocnik (yr Amgylchedd) ym mis Mawrth 2011 fod *"Gwyrddu, ochr yn ochr ag ailddosbarthu taliadau uniongyrchol ac atgyfnerthu cystadleurwydd ym maes amaethyddiaeth a datblygu gwledig yw craidd PAC y dyfodol"*[13].

Taliadau Sylfaenol

4.2. O safbwynt Cymru, un o'r agweddau pwysicaf ar y cynigion presennol yw bod sylfaen taliadau uniongyrchol yn newid, gan symud oddi wrth y dull hanesyddol (wedi'i seilio ar y cymorthdaliadau a gafwyd yng nghyfnod cyfeirio 2000-2002) a thuag at daliad unffurf yr hectar. Mae un Comisiynydd Amaeth ar ôl y llall wedi dweud ers tro bod angen newid o'r fath ac mae un Gweinidog Amaeth ar ôl y llall yng Nghymru hefyd wedi derbyn hynny. Er enghraifft ar 5 Gorffennaf 2011, dywedodd y Dirprwy Weinidog Amaeth, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd fod "*symud at Daliad Sengl mwy gwastad sy'n seiliedig ar ardal yn anochel. Ni allaf gyfiawnhau system sydd wedi'i seilio ar batrymau ffermio 10 mlynedd a mwy yn ô, system sydd hefyd yn codi rhwystrau i newydd-ddyfodiaid ifanc*"[14].

4.3. Aeth y Gweinidog yn ei flaen hefyd i ddweud bod "*ein hymchwil ni'n hunain wedi dangos y bydd taliadau ardal yn golygu ailddosbarthu incwm".* A'r Cyngor Cefn Gwlad yn aelod o grŵp llywio Llywodraeth Cymru ar ddiwygio'r, mae wedi gweld y gwaith ymchwil hwn ac

[12] *"Member States fear Pillar 1 greening will complicate CAP". Agra Europe 20th Medi 2011. Ar gael yn:* http://www.agra-net.com/portal2/home.jsp?template=pubarticle&artid=1315565604578&pubid=ag002

[13] *Comisiynwyr Ciolos, Hedegard and Potocnik -llythyra r y cyd at Aelod-Wladwriaethau ynglŷn â diwygio'r CAP, Mawrth 2011(dim dolen i'r wefan, ond mae copi ar gael dim ond ichi ofyn)*

[14] *Datganiad am Ddiwygio'r PAC gan Alun Davies, Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewrop. 5 Gorffennaf 2011.* Ar gael yn: http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-chamber-fourth-assembly-rop.htm?act=dis&id=219203&ds=7%2F2011#dat2

mae'n amlwg y bydd rhai ar eu colled yn ogystal â rhai ar eu hennill yn sgil unrhyw system. Mae sawl model wedi'i brofi yn y gorffennol (gan gynnwys cyfraddau talu is fesul hectar o fewn yr ardal lai ffafriol fel sy'n digwydd gyda'r cynllun presennol yn Lloegr) ond mae'r drafft presennol o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol yn dweud bod angen symud at 'werth unffurf yr uned' ar gyfer pob taliad y mae gan rywun hawl iddo mewn Aelod-Wladwriaeth neu Ranbarth. Er y byddai'r geiriad hwn i bob golwg yn ein hatal mynd ati mewn ffordd ranbarthol yng Nghymru ei hun, mae Erthygl 20 (1) yn caniatáu i Aelod-Wladwriaethau "ddiffinio rhanbarthau'n unol â meini prawf gwrthrychol anwahaniaethol megis eu nodweddion agronomig ac economaidd, eu potensial amaethyddol rhanbarthol a'u strwythurau sefydliadol a gweinyddol". Bydd angen cael eglurhad ynglŷn ag a yw'r Erthygl hon hefyd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ddiffinio nifer o "isranbarthau" o fewn Cymru ei hun (megis ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd llai ffafriol, ardaloedd llai ffafriol sydd dan lai o anfantais ac ardaloedd llai ffafriol sydd dan anfantais ddifrifol).

4.4. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n edrych ar nifer o fodelau cyfradd-safonol ac mae'r Cyngor Cefn Gwlad wedi cael ar ddeall y caiff y canlyniadau eu rhannu â Grŵp Rhanddeiliaid C1 maes o law. Ar hyn o bryd, mae'n glir y byddai taliad cyfradd-safonol syml ar gyfer holl dir Cymru'n arwain at symud derbyniadau'n sylweddol oddi wrth ardaloedd llawr gwlad (yn enwedig oddi wrth y ffermydd hynny lle'r oedd mwy stoc yn ystod y cyfnod cyfeirio) i'r ucheldir). Mae goblygiadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol hyn yn debygol o amrywio o'r naill fferm i'r llall a bydd hyd a natur y cyfnod pontio (5 mlynedd ar hyn o bryd, ond gyda'r symiau'n sylweddol uwch ar ddechrau'r cyfnod) hefyd yn fater i'w drafod.

4.5. Nid yw'r cynnig ar gyfer gostyngiad graddedig yn y taliadau cymorth sylfaenol a'u capio'n debygol o achosi problemau gweinyddol sylweddol yng Nghymru oherwydd dim ond llond llaw o'r hawliadau yn y dyfodol sy'n debygol o fod yn hawlio mwy na 150,000 ewro.[15] Yn groes i hynny, fe allai'r gofyniad newydd i ddefnyddio'r diffiniad cyfredol o'r prawf "Ffermwr gweithredol" roi pwysau sylweddol ar yr Is-adran Taliadau Gwledig.

<u>Ardaloedd sy'n wynebu cyfyngiadau naturiol neu gyfyngiadau penodol eraill (a elwid gynt yn Ardaloedd Llai Ffafriol)</u>

4.6. Fel y mae cynigion y Comisiwn ar hyn o bryd, gallai'r taliadau am gyfyngiadau naturiol fod yn nodwedd o Golofn 1 a Cholofn 2. I bob golwg, mae'r rhan fwyaf o'r Aelod-Wladwriaethau'n teimlo bod trefniant o'r fath yn orgymhleth ac efallai'n wir fod y Comisiwn wedi'i gynnwys yn bennaf fel tacteg negodi.

4.7. Er mwyn i Lywodraeth Cymru gadw at ei hymrwymiad presennol i fynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth, rheoli dŵr a newid yn yr hinsawdd, bydd yn bwysig sicrhau bod y mesurau cyfyngiadau naturiol yn parhau'n ddewisol yng Ngholofn 1 ac yng Ngholofn 2. Ar yr amod bod Llywodraeth Cymru'n gallu rhoi'r cynllun taliadau sylfaenol ar waith ar sail isranbarthol, byddai hyn i bob golwg yn gwneud iawn am unrhyw fuddion a allai ddeillio o ddarparu taliad am gyfyngiadau naturiol o dan Golofn 1.

---

[15] Llywodraeth Cymru – gohebiaeth bersonol

Cynllun Ffermwyr Bychain

4.8. Mae geiriad Erthygl 47.1 ("*caiff ffermwyr sydd â'r hawl i daliadau a ddyrannwyd yn 2014....ddewis cymryd rhan mewn cynllun symlach")* yn awgrymu ei bod yn orfodol sefydlu Cynllun Ffermwyr Bychain. Rhaid i ffermwyr sy'n cymryd rhan yn y cynllun hwn gael o leiaf 500 Ewro a dim mwy na 1000 y flwyddyn (Erthygl 49.3). Bydd y rhai sy'n cymryd rhan yn cael eu heithrio o fesurau gwyrddu Colofn 1 (Erthygl 47.3) ac mae Erthygl 92 y Rheoliad Llorweddol yn cynnig y dylid hefyd ddiddymu eu cyfrifoldebau trawsgydymffurfio.

4.9. I bob golwg, nid oes dim trothwyon maint wedi'u pennu ar gyfer y Cynllun Ffermwyr Bychain, a gall ffermydd o unrhyw faint wneud cais a dibynnu ar ba mor ddeniadol, i bob golwg, yw'r taliadau. Fe all fod goblygiadau sylweddol i'r amgylchedd yn sgil hyn os caiff y gofynion trawsgydymffurfio sy'n berthnasol i'r ffermydd hyn eu diddymu fel y cynigir yn Erthygl 92 o'r Rheoliad Llorweddol[16]. At hynny, fe allai costau gweinyddol sefydlu cynllun o'r fath fod yn sylweddol.

Gwyrddu

4.10. Mae'n anodd mesur effaith y mesurau gwyrddu a gynigir ar hyn o bryd a'r rheswm pennaf am hynny yw bod y Comisiwn yn cynnig y dylid ei rymuso i fabwysiadu "deddfau dirprwyedig" gan ymhelaethu ynglŷn â sut y rhoddir y testunau presennol ar waith ynglŷn ag arallgyfeirio o ran cnydau, porfeydd parhaol ac ardaloedd â ffocws ecolegol, ymhlith eraill (Erthygl 55). Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn cael ar ddeall fod Llywodraeth Cymru'n meddwl bod gwyrddu Colofn 1 yn anghywir yn ei hanfod[17], a bod gwella'r amgylchedd yn fater mwy priodol i'w gynnwys o dan Golofn 2. Mae Defra'n cytuno â'r farn hon, ond yn wahanol i'r gweinyddiaethau datganoledig, mae am leihau'r pwyslais presennol ar Golofn 1[18]. Mae llawer o'r Aelod-Wladwriaethau eraill a sefydliadau'r ffermwyr yn gwrthwynebu gwyrddu, tra bo Cyrff Anllywodraethol yn Ewrop megis Birdlife yn meddwl nad yw'r mesurau wedi'u datblygu'n ddigonol ar hyn o bryd i sicrhau buddion sylweddol i'r amgylchedd[19]. Serch hynny, mae'r ffaith bod y tri Chomisiynydd - Amaeth, yr Amgylchedd a Newid yn yr Hinsawdd yn ymwneud â hyn ar y cyd yn awgrymu ei bod yn hynod o debygol o hyd y caiff Colofn 1 ei gwyrddu mewn rhyw fodd neu'i gilydd.

4.11. Nid yw'r mesur arallgyfeirio o ran cnydau ond yn berthnasol i'r ffermydd hynny sydd â mwy na 3ha o dir âr. Fe allai fod o fudd ar dirweddau âr sy'n cael eu rheoli'n ddwys, ond bydd hyn yn dibynnu ar sut y caiff ei roi ar waith. Yn groes i hynny, mae'n ymddangos y byddai'r gofyniad i dyfu o leiaf dri chnwd lle mae'r tir âr yn fwy na 3ha o ran ei arwynebedd yn gwneud pobl yn gyndyn o dyfu cnydau âr ar raddfa fechan i fwydo'u stoc ac ar gyfer gwellt, sydd hefyd o fudd i adar ar dir fferm.. Fe allai hefyd olygu na fyddai cynifer yn manteisio ar yr opsiynau ar gyfer defnyddio tir âr sydd mewn cynlluniau megis Glastir.

[16] Mae rhyw 33% o'r ffermydd yn 27 yr UE o dan 3 hectar

[17] *Safbwynt Llywodraeth Cymru ar ddiwygio'r PAC - 5 Gorffennaf 2011. Op cit.*

[18] "Britain and Poland call for radical CAP reform" Medi 2011. Ar gael yn: http://www.defra.gov.uk/news/2011/09/20/britainpolandcapreform/

[19] "*Common Agricultural Policy (CAP) reform: Radical re-think needed to make the CAP really deliver for the environment". Birdlife International. Medi 2011. Ar gael yn: http://www.cap2020.ieep.eu/assets/2011/9/5/Tests_of_greening-BirdLife-PDF_1.pdf*

4.12. Efallai na fydd y cyfyngiadau a gynigir ar aredig porfeydd parhaol yn cryfhau fawr ddim at y warchodaeth a ddarperir eisoes gan Reoliadau presennol yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (Tir heb ei Drin) a'r gofyniad presennol yn y PAC i bob Aelod-Wladwriaeth/Rhanbarth gymryd camau i atal dirywiad sylweddol yng nghyfanswm arwynebedd y porfeydd parhaol. Diffiniad eang iawn a geir o borfeydd parhaol o dan Erthygl 4 o'r Rheoliad drafft newydd ac mae'n cynnwys "pob gwair a gwyndwn llysieuol arall......nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cylchdro cnydau ers pum mlynedd neu fwy". Ni fydd cadw ardaloedd mawr o weirdir sydd wedi'i sefydlu'n ddiweddar yn debygol o arwain at fanteision sylweddol i fioamrywiaeth nac i ddal a storio nwyon tŷ gwydr, ond bydd yn lleihau gallu ffermwyr Cymru i fabwysiadu systemau amaethyddol mwy cynaliadwy. Fe all y rhain gynnwys plannu coed yn ogystal â throi at dir âr a garddwriaeth (a hynny'n aml yn rhan o gynlluniau amaeth-amgylchedd).

4.13. Ffordd fwy priodol o ddiffinio porfeydd parhaol fyddai canolbwyntio ar gadw'r gweirdiroedd hynny sydd wedi'u lled-wella ac sydd o'r gwerth mwyaf i fywyd gwyllt a/neu ddal a storio carbon. Serch hynny, byddai mapio pob ardal o'r fath, yn creu anawsterau mawr ar lefel yr UE gyfan. Dewis arall a haws o bosibl fyddai negodi newid i'r diffiniad presennol, efallai drwy seilio hyn ar reol deng mlynedd yn hytrach nag ar y 5 mlynedd a gynigir ar hyn o bryd. Fe allai diffiniad o'r fath ddal i gyfyngu'n sylweddol ar newid defnydd tir mewn ffordd fuddiol, ond byddai'n cynnig mwy o hyblygrwydd na'r cynnig presennol a byddai'n dal yn weddol hawdd ei roi ar waith.

4.14. Mae drafft presennol Erthygl 31 yn ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr gadw 95% o'r ardal o weirdir parhaol sydd ar bob fferm yn 2014. Gallai pennu dyddiad cyfeirio sydd mor bell i ffwrdd annog ffermwyr i aredig y gweirdir sydd yno eisoes yn ystod y cyfnod 2011-2104. Ni fydd y rheol 95% yn gwneud dim ychwaith i warchod y porfeydd parhaol mwyaf gwerthfawr ar lawer o ffermydd.

4.15. I bob golwg yr Ardaloedd â Ffocws Ecolegol sy'n cynnig y potensial mwyaf ar gyfer enillion amgylcheddol[20], er nad yw'n glir eto pa ofynion a fydd yn ymarferol yng nghyd-destun Cymru. Mae'r profiad diweddar a gafwyd gyda Glastir yn awgrymu y bydd angen i'r Ardaloedd â Ffocws Ecolegol fod mor syml ag sy'n bosibl. Efallai'n wir y gadewir i ffermwyr benderfynu ynglŷn â chynnwys eu Hardaloedd â Ffocws Ecolegol eu hunain ac nid yw'n debygol y cânt ryw lawer o gyngor ynglŷn â gofynion rheoli tir (ac eithrio drwy archwiliad Arolygiaeth Wledig Cymru neu drwy Gyswllt Ffermio).

4.16. Gallai'r diffiniad o borfeydd parhaol gael dylanwad mawr ar sut y rhoddir gofyniad 7% yr Ardaloedd â Ffocws Ecolegol ar waith. Mae hyn i bob golwg yn berthnasol i holl dir y tirddaliad <u>nad</u> yw'n cael ei ddiffinio'n borfa barhaol. Awgrymwyd mai bwriad y Comisiwn yw i'r Ardaloedd â Ffocws Ecolegol fod yn berthnasol i dir âr a gweirdir dros dro'n unig[21], ond nid yw hyn yn glir yn y testun drafft presennol. Ar lawer o ffermydd yr ucheldir yng Nghymru, mae ardaloedd helaeth o dir pori bras nad ydynt yn debygol o gael eu hystyried yn borfeydd parhaol o dan ddiffiniad presennol Erthygl 4. Yn sgil hynny, fe allai ffermydd sydd ag ardaloedd mawr o rostir a gorgors wynebu gofyniad sylweddol o ran Ardal â Ffocws Ecolegol, a byddai'n rhaid darparu'r rhan fwyaf ohoni ar eu gweirdir sydd wedi'i wrteithio neu ei ddraenio (byddai'n anodd datblygu mesurau Ardal â Ffocws Ecolegol ychwanegol ar rostir neu ar orgors heb i hynny orgyffwrdd â gofynion presennol elfen Cymru gyfan Glastir).

[20] Datganiad LUPG ar Neilltir. Medi 2007. Ar gael yn: http://www.lupg.org.uk/Default.aspx?page=119

[21] Sefydliad Polisi Amgylcheddol Ewrop - cyfathrebiad personol

4.17. O ran y nodweddion a allai fod yn gymwys o dan Ardal â Ffocws Ecolegol, nid yw'n glir a fydd unrhyw ofyniad penodol ynglŷn â lled yn berthnasol i nodweddion y dirwedd megis coetrychoedd a ffiniau traddodiadol eraill caeau. Rhestrir ystyriaethau eraill y mae gofyn ymchwilio rhagor iddynt yn Atodiad 1.

4.18. Gellid mynd ati mewn ffordd wahanol i'r hyn a gynigir drwy'r Ardaloedd â Ffocws Ecolegol/y mesurau gwyrddu gan sicrhau ei bod yn hawdd i ffermwyr ei dilyn yn ogystal ag i'r Adran Materion Gwledig ei monitro. Un ffordd bosibl o fynd o'i chwmpas hi fyddai cyfuno'r gofynion ar gyfer tir âr a'r gofynion ar gyfer Ardaloedd â Ffocws Ecolegol a chaniatáu unrhyw ddull rheoli tir sy'n gydnaws â Chyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da / Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol / NATURA 2000 a dynodiadau cadwraeth cenedlaethol eraill, ond gwahardd defnyddio pob math o blaladdwr, gwrteithiau anorganig, tail fferm, biswail a deunyddiau eraill megis compost, llaid carthion, gwastraff papur ac isgynhyrchion anifeiliaid ac ati ar 7% o'r ardal nad yw'n borfa barhaol. Bydd gofyn gwneud rhagor o waith i weld beth fyddai goblygiadau mynd ati fel hyn, ond mae'n amlwg eisoes y bydd angen cadw llawer o fesurau posibl yr Ardaloedd â Ffocws Ecolegol ar waith yn yr un lle am gyfnod rhesymol. Er enghraifft, ni fyddai fawr o bwynt cyfyngu ar ddefnyddio gwrteithiau ar weirdir am flwyddyn ac wedyn caniatáu gwrteithio'r tir hwnnw'r flwyddyn ganlynol. Yn y cyd-destun hwn, fodd bynnag, mae angen mwy o eglurhad ynglŷn â'r cyfeiriad ym mharagraff 26 o'r rhagair i'r Rheoliadau at arferion gwyrddu sy'n "syml, yn gyffredinol, yn ddigontract a chamau blynyddol sy'n mynd y tu hwnt i drawsgydymffurfio".

4.19. Mae angen archwilio hefyd y rhyngweithio rhwng mesurau gwyrddu Colofn 1 a chynlluniau amaeth-amgylchedd. Ar hyn o bryd cynigir eithrio ffermydd organig o'r gofynion gwyrddu (erthygl 29.4) ac er bod gofyn i ffermydd Natura 2000 gymryd rhan yn y gwyrddu, maent yn cael eu heithrio o'r gofynion lle mae'r rhain yn gwrthdaro â phwrpas dynodiad N2K (Erthygl 29.3). Er mwyn lleihau'r risg o effeithiau niweidiol, mae'n ymddangos bod dadl gref dros ddefnyddio mwy o fesurau amgylcheddol wedi'u targedu - gyda'r rhai sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd fferm-gyfan hefyd yn cael eu heithrio o'r gofynion gwyrddu. Byddai hyn yn golygu newid arall i'r Rheoliadau drafft. At hyn, mae'n debygol y byddai'r Comisiwn am gael tystiolaeth fesul achos bod y cynlluniau amaeth-amgylchedd perthnasol yn ddigon llym, neu fe ellid dadlau nad oedd mesurau gwyrddu Colofn 1 wedi cyflawni pwrpas y datganiad sef "mynd y tu hwnt i drawsgydymffurfio".[22]

4.20. Mae goblygiadau a darpar fuddion amgylcheddol gwyrddu'n debygol o amrywio yn ôl y math o fferm, ond i bob golwg, byddai buddion sylweddol yn fwy tebygol o ddod lle byddai ffermwyr wedi penderfynu peidio â gwneud cais am gynllun amaeth-amgylchedd ond eu bod yn dal i ddymuno hawlio taliadau uniongyrchol. Po leiaf yw'r gyllideb datblygu gwledig mewn Aelod-Wladwriaeth neu Ranbarth arbennig, mwyaf fydd gofyn dibynnu ar wyrddu Colofn 1 er mwyn cyflawni amcanion yr UE o ran bioamrywiaeth, dŵr a newid yn yr hinsawdd.

4.21. Ar hyn o bryd, cred y Cyngor Cefn Gwlad mai'r cwestiwn strategol pwysig yw a ddylid defnyddio gwyrddu Colofn 1 i gymell ffermwyr i ymuno â Glastir (a fyddai'n golygu bod angen diwygio'r Rheoliadau drafft presennol er mwyn sicrhau bod pawb sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd yn gallu cael eu heithrio o'r gofynion gwyrddu) ynteu a ddylid defnyddio gwyrddu i "godi'r bar" ar gyfer y rheini sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd - gan sicrhau bod modd defnyddio cronfeydd datblygu gwledig prin i brynu lefel uwch o fudd i'r amgylchedd.

[22] Paragraff 1, tudalen 8 o'r rhagair i'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol drafft

4.22.Er bod y Cyngor Cefn Gwlad yn sylweddoli ei bod yn ddymunol sicrhau cyn lleied o newidiadau â phosibl i Glastir, mae'r hyn a gynigir gan yr UE, sef y gofyniad y dylai mesurau gwyrdd Colofn 1 fynd "y tu hwnt i drawsgydymffurfio" yn golygu ei bod yn debygol y bydd angen addasiadau eraill i elfen Cymru gyfan. Er enghraifft, byddai addasu neu ddileu opsiynau 15B a 15D (porfeydd parhaol y bwydir hyd at 100kg o nitrogen iddynt y flwyddyn) yn ei gwneud hi'n fwy tebygol y bydd y Comisiwn yn cytuno â'r cynnig y dylai pawb sy'n cymryd rhan yng nghynllun Glastir gael ei eithrio rhag gofynion gwyrddu Colofn 1.

Datblygu Gwledig

4.23. Mae'r pwyslais presennol yn y Rheoliad Datblygu Gwledig ar drosglwyddo gwybodaeth, cydweithredu ymhlith ffermwyr, buddsoddi ac arloesi yn un y gellid ei ddefnyddio i sicrhau cyfleoedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd sylweddol. Ar yr un pryd, mae diddymu strwythur yr Echelau ynghyd ag ychwanegu mesurau newydd megis rheoli risg yn debygol o arwain at lai o bwyslais ar amaeth-amgylchedd a newid yn yr hinsawdd mewn llawer o Aelod-Wladwriaethau. Yn benodol, mae'r Rheoliad Datblygu Gwledig presennol yn mynnu bod o leiaf 25% o'r gwario ym mhob cynllun datblygu gwledig yn cael ei neilltuo i fesurau rheoli tir o dan 'Echel 2'. Nid yw'r gofyniad hwn yn ymddangos ym mhrif gorff y Rheoliad Datblygu Gwledig newydd drafft, er wrth gyfeirio at y mesur amaeth-amgylchedd-hinsawdd, mae paragraff 28 y rhagair yn dweud: *"Dylai Aelod-Wladwriaethau gynnal lefel yr ymdrech a gafwyd yn ystod cyfnod rhaglennu 2007-2013 a gwario o leiaf 25% o gyfanswm cyfraniad Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig ar bob rhaglen datblygu gwledig .... drwy'r amgylchedd amaeth-amgylchedd, ffermio organig a thaliadau i ardaloedd sy'n wynebu mesurau cyfyngiadau naturiol".*

4.24. Cynllun Datblygu Gwledig Cymru yw sail y rhan fwyaf o'r cymorth cyhoeddus a roddir i goedwigaeth yng Nghymru. Mae coedwigaeth yn elfen hanfodol o ddatblygu gwledig ac mae'r Rheoliad Datblygu Gwledig yn dal i ddarparu cymorth ar gyfer defnydd tir sy'n cwmpasu cynyddu ardaloedd o goetir a hefyd reoli fforestydd sydd gennym eisoes mewn ffordd gynaliadwy. Bwriedir i'r mesurau wireddu ystod o flaenoriaethau'r UE ac maent yn cynnwys coedwiga a chreu coetiroedd newydd; sefydlu systemau amaeth-goedwigaeth; atal difrod i fforestydd a'u hadfer ar ôl tanau a thrychinebau naturiol; buddsoddi sy'n gymorth i wrthsefyll bygythiad newid yn yr hinsawdd a gwella gwerth amgylcheddol; buddsoddi mewn technolegau coedwigo newydd a phrosesu a marchnata cynhyrchion y goedwig. Bydd y mesurau hyn i gyd o gymorth wrth roi Strategaeth Coedwigaeth yr UE ar waith.

4.25. Hyd yn hyn, nid yw Cymru wedi defnyddio'r mesur sy'n ymwneud â sefydlu systemau amaeth-goedwigaeth. Serch hynny, gellid cynnwys hwn yng Nghynllun Datblygu Gwledig nesaf Cymru yn gefn i amcanion ymateb i newid yn yr hinsawdd a storio carbon, ynghyd ag i sawl budd arall. Yr awgrym yw bod plannu coed ar ffermydd, gan gynnwys coed ychwanegol mewn coetrychoedd, yn cael ei ystyried o dan y mesur hwn. Yn y cyfamser, mae'r holl grantiau coedwigaeth, sy'n seiliedig ar arian Cynllun Datblygu Gwledig Cymru, wrthi'n cael eu trosglwyddo i Glastir.

4.26. Nid yw lleihau'r gyfradd modiwleiddio uchaf i 10%[23] i bob golwg yn debygol o greu problemau sylweddol yng Nghymru, er y gall rhai gweinyddiaethau straffaglu i wneud iawn am yr adnoddau a gollir oni chaiff dyraniad y Deyrnas Unedig yn y dyfodol o dan Golofn 2 ei

[23] *Uchafswm y gyfradd modiwleiddio gwirfoddol ar hyn o bryd (sydd ar waith yn y Deyrnas Unedig) yw 20%.*

gynyddu. Fe allai'r posibilrwydd o fodiwleiddio o chwith (trosglwyddo hyd at 5% o Golofn 2 i Golofn 1) greu problem gystadleuaeth ar lefel Ewrop i rai Aelod-Wladwriaethau, gan gynnwys i'r Deyrnas Unedig.

4.27. Fel yr eglurir yng nghyllideb ddrafft yr UE, bydd cyllideb Colofn 2 yn gostwng mewn termau real yn ystod y cyfnod 2014-20. Caiff dyraniadau'r cronfeydd datblygu gwledig i Aelod-Wladwriaethau unigol eu pennu yn ystod 2012 ac fe'u seilir ar "feini prawf gwrthrychol a pherfformiad yn y gorffennol". Os digwydd i ddyraniad Cymru ostwng o dan Golofn 2, cred y Cyngor Cefn Gwlad y bydd angen i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r hyblygrwydd sydd ar gael o dan Erthygl 14 o'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol i ategu'r arian sydd ar gael yng Nghynllun Datblygu Gwledig Cymru. Gellir defnyddio cronfeydd o'r fath i sbarduno polisi amaethyddol sy'n seiliedig ar arloesi, buddsoddi, cydweithredu a throsglwyddo gwybodaeth yn ogystal ag yn sail ar gyfer cynyddu'r nifer sy'n rhan o Glastir (gellid cymell hyn drwy sicrhau bod pawb sy'n ymwneud â chynlluniau amaeth-amgylchedd fferm-gyfan addas yn cael eu heithrio o fesurau gwyrddu Colofn 1).

4.28. Mae'r gofynion yn y Rheoliad Rheolau Cyffredin ar gyfer "Contractau Partneriaeth" (a bwriad y rhain yw sicrhau bod holl lifau ariannu'r UE yn cael eu hintegreiddio o fewn Aelod-Wladwriaeth) yn cynnig y posibilrwydd o wella ansawdd y cynllunio, ond oherwydd y bydd angen cytuno ar gontractau o'r fath ar lefel y Deyrnas Unedig cyn cychwyn paratoi Cynllun Datblygu Gwledig nesaf Cymru, fe allai hynny arwain at oedi. Ni fydd Cynllun Datblygu Gwledig newydd Cymru bellach yn cael ei gyfyngu gan strwythur yr echelau, ond bydd angen dangos dulliau llawer mwy integredig lle bydd *"cyfuniadau perthnasol o fesurau [a thargedau] yn cael eu cynnwys mewn perthynas â blaenoriaethau'r Undeb yn y rhaglen ar gyfer datblygu gwledig " (Erthygl 9.1c)* ac fe allai hyn achosi mathau newydd o anawsterau wrth geisio cymeradwyaeth y Comisiwn.

<u>Materion llorweddol</u>

4.29. O Safbwynt amgylcheddol, mae'r mesurau trawsgydymffurfio newydd, ehangu'r gwasanaeth cynghori ffermwyr a'r gofyniad i fonitro holl fesurau'r PAC (yn hytrach na dim ond y rheini o dan Golofn 2) i'w croesawu, ond canlyniad anochel hynny yw y bydd adnoddau Llywodraeth Cymru (yn ariannol ac yn weinyddol) yn cael eu taenu'n deneuach. O ran trawsgydymffurfio, mae hyn yn awgrymu y dylai'r pwyslais rheoleiddio symud at y ffermydd hynny sydd i bob golwg yn peri'r risgiau mwyaf o beidio â chydymffurfio - cyn belled â bod mynd ati yn y modd hwnnw'n gyson â gofynion Archwilio'r UE.

## <u>5. Beth ddylai blaenoriaethau Llywodraeth Cymru fod wrth iddi negodi er mwyn sicrhau canlyniad sydd o fudd i Gymru</u>?

5.1.Cred y Cyngor Cefn Gwlad y dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu'r materion a ganlyn o ran effeithiau posibl cynigion y Comisiwn ar yr amgylchedd.

- Natur mesurau gwyrddu Colofn 1, yn enwedig geiriad manwl Erthyglau 4, 29, 30, 31 a 32;
- Bod angen cyllideb ddigonol ar gyfer Colofn 2 ar lefel yr UE yn ogystal â dyraniad Colofn 2 boddhaol ar gyfer y Deyrnas Unedig ac ar gyfer Cymru;
- Mae angen i bob Aelod-Wladwriaeth/Rhanbarth gynnal lefelau presennol eu hymrwymiadau o ran amaeth-amgylchedd a'r hinsawdd, yn ogystal â sicrhau bod pob

Cynllun Datblygu Gwledig yn dyrannu o leiaf 25% o gyfraniad Cronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig er mwyn cyflawni mesurau rheoli tir.

- Cael eglurhad y gellir darparu'r taliadau cymorth sylfaenol newydd (sydd i'w talu ar raddfa unffurf yr ha) ar sail isranbarthol yn ogystal â modelu effeithiau ystod o senarios eraill;
- Cael eglurhad ynglŷn â natur y cyfnod pontio a ddefnyddir wrth symud oddi wrth daliadau hanesyddol ac at daliadau ardal;
- Archwilio effaith gostyngiadau graddedig/capio taliadau uniongyrchol yng nghyswllt y ffermydd hynny sydd ar hyn o bryd yn cyflenwi buddion cyhoeddus amgylcheddol sylweddol;
- Natur y cynllun ffermwyr bychain ac a oes angen i hyn fod yn orfodol ym mhob Aelod-Wladwriaeth/Rhanbarth yn ogystal â darparu eithriadau ar gyfer mesur gwyrddu Colofn 1 a thrawsgydymffurfio;

## 6. Sut y gall Cymru sicrhau bod ei barn yn cael ei hystyried yn y broses negodi?

6.1.Mae amserlen rownd bresennol diwygio'r PAC wedi llithro eisoes, ond ar ôl dadl gychwynnol y Cyngor Amaethyddiaeth ar 20 a 21 Hydref, disgwylir i weddill y broses ddilyn fel a ganlyn[24]:

- 14 a 15 Tachwedd 2011- dadl y Cyngor Amaethyddol am Daliadau Uniongyrchol;
- 15 a 16 Rhagfyr 2011- dadl y Cyngor Amaethyddiaeth am Ddatblygu Gwledig;
- Gwanwyn/Haf 2012 - Proses gydbenderfynu'n cynnwys Senedd Ewrop, y Comisiwn a'r Cyngor Amaethyddiaeth fel sy'n ofynnol o dan Gytuniad Lisbon. Bydd Senedd Ewrop yn cyfeirio'n ôl at ei hadroddiadau ei hun ar ddiwygio'r PAC[25];
- Gwanwyn/Haf 2012 - Rhoi deddfwriaeth/Deddfau Dirprwyedig y Comisiwn ar waith gan eu datblygu ochr yn ochr â'r ddadl fydd yn mynd rhagddi ynglŷn â geiriad y Rheoliadau newydd;
- Ddiwedd 2012/2013 - penderfyniad terfynol ynglŷn â chyllideb yr UE.

6.2.Bydd gan destun terfynol cyllideb yr UE oblygiadau ar gyfer pob Cynllun Datblygu Gwledig newydd, yn enwedig os caiff y gyllideb ddrafft bresennol ei thocio gan Benaethiaid Llywodraethau. Byddai gostyngiad o'r fath bron yn sicr o effeithio ar gyllideb y PAC ac ar ariannu Colofn 2 - gan olygu y byddai llawer o Aelod-Wladwriaethau'n gorfod dibynnu ar gyfuniad o'u hadnoddau eu hunain a gwyrddu Colofn 2 i sicrhau bod buddion a gwasanaethau ecosystemau'n cael eu rheoli fel sy'n angenrheidiol.

6.3. Mae hyn yn awgrymu bod angen i Lywodraeth Cymru fabwysiadu dull deublyg:

- dadlau o blaid Colofn 2 sydd wedi'i hariannu'n briodol ar lefel yr UE yn ogystal ag o blaid dyraniad i Gymru sy'n gallu gwireddu'r targedau amgylcheddol presennol[26]

---

[24] Sefydliad Polisi Amgylcheddol Ewrop - cyfathrebiad personol

[25] *"The CAP towards 2020: meeting the food, natural resources and territorial challenges of the future".* Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Senedd Ewrop. Rapporteur, Albert Dess. Ar gael yn: http://www.europarl.europa.eu/meetdocs/2009_2014/documents/agri/pr/857/857600/857600en.pdf

- sicrhau bod gwyrddu Colofn 1 yn darparu rhwyd diogelu amgylcheddol os digwydd i setliadau cyllideb Ewrop/cenedlaethol arwain at danariannu Cynllun Datblygu Gwledig Cymru.

6.4. Bydd sicrhau bod Cymru yn gallu cyfrannu at lunio deddfau dirprwyedig y Comisiwn a'r rheoliadau gweithredu yr un mor bwysig â chyfrannu at y negodi ynglŷn â'r rheoliadau drafft presennol. Bydd modelu effaith y gwahanol senarios yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod safle negodi Cymru'n ddigon cadarn.

## 7. Cynigion y Cyngor Cefn Gwlad ar gyfer gwelliannau penodol i gynigion drafft y Comisiwn

7.1.Wrth awgrymu gwelliannau a allai ddileu'r effeithiau niweidiol sy'n debygol o godi yn sgil y Rheoliadau drafft fel y maent wedi'u geirio ar hyn o bryd, mae'n hanfodol osgoi creu effeithiau niweidiol newydd a'r rheini'n rhai nad ydym wedi'u rhagweld hyd yn hyn. A dibynnu ar y gwaith sy'n mynd rhagddo ar oblygiadau mesurau gwyrddu C1, mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn dymuno cyflwyno'r awgrymiadau a ganlyn ynglŷn â'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol:

- Gyda golwg ar Erthygl 29.3 (eithriadau o'r mesurau gwyrddu fel y maent yn berthnasol i dir a ddynodir yn safleoedd Natura 2000) dylid sefydli eithriad cyfochrog hefyd yng nghyswllt yr holl ddynodiadau cadwraeth statudol cenedlaethol;

- Gyda golwg ar Erthygl 29.4 (eithriadau o'r mesurau gwyrddu fel y maent yn berthnasol i ffermio organig) dylid sefydlu eithriad cyfochrog hefyd yng nghyswllt *"pawb sy'n ymwneud â chynlluniau amaeth-amgylchedd <u>fferm-gyfan</u> y mae Comisiwn Ewrop yn ardystio'u bod yn ddigon cadarn".* Gellid cyflwyno manylion pob cynllun (gan ddangos sut maent yn sicrhau bod y rhai sy'n ymwneud â hwy'n cyflawni'r gofynion sylfaenol fan leiaf o dan y mesurau gwyrddu) ar sail rhaglen fesul achos i'r Comisiwn gytuno arnynt.

- Gyda golwg ar y mesur arallgyfeirio o ran cnydau (Erthygl 30), dylid codi'r trothwy o 3ha i 10 ha. Dylid ystyried eto hefyd a ddylid rhoi trothwy ar waith sy'n seiliedig ar % y fferm sy'n cael ei haredig ar batrwm cylchdro);

- Gyda golwg ar y mesur porfeydd parhaol (Erthygl 31) dylid seilio'r ardal gyfeirio ar *"y sefyllfa ar 12 Hydref 2011"* yn hytrach nag ar ddechrau blwyddyn hawlio 2014

- Gyda golwg ar y diffiniad o borfeydd parhaol sydd yn Erthygl 4, dylid seilio hwn ar ddiogelu'r gweirdiroedd hynny sydd fwyaf gwerthfawr o ran bioamrywiaeth ac o ran dal a storio carbon. Os nad oes digon o ddata ar gael ar lefel yr UE, gallai Llywodraeth Cymru ddisgyn yn ôl ar y ddadl y dylid cyfyngu'r diffiniad i *"dir nad yw wedi'i gynnwys yng nghylchdro cnydau'r tirddaliad ers deng mlynedd";*

- Gyda golwg ar Erthygl 32.1, dylid diwygio'r geiriad i gynnwys y testun a ganlyn mewn bachau sgwâr: *"Rhaid i ffermwyr sicrhau bod o leiaf 7% o'u hectarau cymwys fel y'u*

---

[26] Targedau SoDdGa Strategaeth amgylcheddol Cymru; gostyngiad o 3% y flwyddyn mewn gollyngiadau nwyon tŷ gwydr yn y meysydd cymhwysedd sydd wedi'u datganoli; dyddiadau terfyn y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

*diffinnir yn Erthygl 25(2), ac eithrio ardaloedd o dan weirdir parhaol (ac ardaloedd eraill o natur barhaol y gellid eu pori] yn ardal â ffocws ecolegol megis ..... ac ati".* Fel arall, gellid defnyddio geiriad newydd i'w gwneud yn glir nad yw darpariaethau Ardal â Ffocws Ecolegol ond yn berthnasol i dir âr a gweirdir dros dro.

- Gyda golwg ar roi'r cynllun taliadau sylfaenol ar waith, bydd angen egluro'r cyfeiriad yn Erthygl 20 (1) at y diffiniad o "ranbarthau". Yn benodol, mae angen i Lywodraeth Cymru allu sefydlu ystod o isranbarthau er mwyn gallu amrywio taliadau sylfaenol o'u mewn a dibynnu ar natur y tir a'r math o ffermio a wneir ynddynt;

- Dylid diwygio'r darpariaethau sy'n berthnasol i'r Cynllun Ffermwyr Bychain (Erthyglau 47- 50) er mwyn sicrhau bod modd rhoi hwn ar waith yn ôl doethineb Aelod-Wladwriaethau / Rhanbarthau yn hytrach na'i fod yn orfodol;

- Os penderfynir bod y Cynllun Ffermwyr Bychain yn orfodol, dylid caniatáu i Aelod-Wladwriaethau/Rhanbarthau ddiffinio'r meini prawf ar gyfer ymuno ag ef er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol i'r diriogaeth dan sylw;

- Dylid diwygio Erthygl 47 er mwyn sicrhau bod y gofynion trawsgydymffurfio'n dal yn berthnasol i bawb sy'n ymwneud â'r Cynllun Ffermwyr Bychain gan roi'r mesurau gwyrddu ar waith ym mhob fferm sy'n fwy na throthwy maint penodol;

7.2. Gyda golwg ar baragraff 28 y rhagair i'r Rheoliad Datblygu Gwledig drafft, (*sy'n cadarnhau y dylai Aelod-Wladwriaethau/Rhanbarthau gynnal lefelau presennol ymrwymiadau amaeth-amgylcheddol a hinsawdd presennol yn ogystal â sicrhau bod pob Cynllun Datblygu Gwledig yn dyrannu o leiaf 25% o gyfraniad Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig er mwyn gwireddu mesurau rheoli tir)* dylid cynnwys ymrwymiad cyfochrog yn Erthygl 65 yr un Rheoliad.

**Cyngor Cefn Gwlad Cymru**
**Countryside Council for Wales**
Tachwedd 2011

<u>**ATODIAD 1**</u>

**Ambell ystyriaeth benodol ynglŷn â'r Ardaloedd â Ffocws Ecolegol**

- A fyddai'n rhaid ffensio lleiniau clustogi?
- A fyddai lleiniau clustogi'n golygu bod rhaid i ffermwyr osgoi defnyddio tail buarth a phlaladdwyr yn ogystal ag NPK?
- A allai cnydau âr llai dwys megis ŷd heb ei chwistrellu a sofl wedi'u gaeafu fod yn gymwys fel rhan o Ardal â Ffocws Ecolegol ynghyd â gwyndwn?
- A allai cnydau ar gyfer helwriaeth fod yn gymwys fel rhan o Ardal â Ffocws Ecolegol ynghyd â gwyndwn?
- Os rheolir canran o'r fferm drwy ddulliau organig, a allai hyn gyfrif tuag at ofyniad yr Ardal â Ffocws Ecolegol ynteu a yw hynny'n golygu bod y fferm gyfan/rhan o'r fferm yn cael ei heithrio o dan Erthygl 29(4)?
- A allai rheoli coetrychoedd yn syml ac yn well (opsiynau Glastir 4, 4B a 5) gyfrif at ofyniad yr Ardal â Ffocws Ecolegol (os felly, mae'n debyg y dylid rhoi mwy o bwysoliad i ardal o'r fath lle ceir coetrychoedd nag i goetrychoedd nad oes gofyniad fel hyn ynghlwm wrthynt?).
- Sut y diffinnir "nodweddion y dirwedd" ac a allai hyn ymestyn i gynnwys llain 5m o led sy'n pontio hawl dramwy gyhoeddus (cf gofyniad trawsgydymffurfio Lloegr).
- A allai cydymffurfio â chynlluniau rheoli adnoddau neu fesurau dad-ddwysâu yng nghyswllt gwlyptiroedd fod yn gymwys fel rhan o Ardal â Ffocws Ecolegol?

---